Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Ysgol Prospects

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a, lle na chaiff y rhain eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol,* Ebrill 2004; a
- Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 03/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Prospects yn ysgol arbenigol annibynnol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer pobl ifanc sy'n destun gorchmynion gofal neu sy'n byw gyda Prospects for Young People Ltd, yn ogystal â chynnig lleoliadau dydd i bobl ifanc. Mae gan Prospects for Young People Ltd 11 o gartrefi plant cofrestredig gwahanol, bob un ohonynt yn ardal Wrecsam, ac mae un o'r cartrefi plant yn rhannu safle'r ysgol.

Mae 'continwwm darpariaeth' gan yr ysgol. Caiff disgyblion eu hasesu wrth ddod i mewn a'u gosod yn y setiau gwahanol yn unol â'u hanghenion unigol. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys addysg adref yn y cartref plant, yn cael ei ddarparu gan yr athrawon, a darpariaeth anogaeth neu amserlen lawn o weithgareddau addysgol yn yr ysgol.

Ar hyn o bryd, mae 14 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Maent yn dod o awdurdodau yn Lloegr yn bennaf, gydag ychydig o ddisgyblion yn dod o awdurdodau yng Nghymru. Mae lleoliadau preswyl 52 wythnos gan bron pob un o'r disgyblion, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn mynychu fel disgyblion dydd. Mae statws 'plentyn sy'n derbyn gofal' gan bron pob un o'r disgyblion, ac mae gan chwe disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod o newidiadau staffio sylweddol er Mehefin 2012. Mae'r rhain yn cynnwys penodi pennaeth newydd (y dirprwy bennaeth yn flaenorol), pennaeth cynorthwyol a chydlynydd anghenion addysgol arbennig (CydAAA). Mae rôl pennaeth cynorthwyol yn newydd i'r ysgol ac yn disodli rôl y dirprwy bennaeth.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r 'Lodge' fel adnodd addysgu ychwanegol. Mae'r adnodd hwn yn galluogi disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol, a oedd yn cael eu haddysg yn y cartref plant yn flaenorol, i gael eu hintegreiddio'n llwyddiannus yn ôl yn yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- mae wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf;
- mae arweinwyr a staff yn canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion;
- mae disgyblion yn cyflawni cynnydd da yn eu dysgu ac yn gwella'u hymddygiad a'u medrau cymdeithasol yn dda, dros gyfnod;
- mae athrawon a'r cynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio'n effeithiol fel tîm;

- mae staff yn rheoli ymddygiad y disgyblion yn effeithiol;
- mae disgyblion yn ennill ystod briodol o gymwysterau cyn iddynt adael yr ysgol; ac
- mae partneriaethau yn gryfder.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- er bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da iawn o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf, megis dechrau y mae'r gwaith yn ymwneud â dau o'r argymhellion;
- mae'r ysgol yn darparu cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion Blwyddyn 11 i symud ymlaen at ddarpariaeth ôl-16. Mae ganddi gysylltiadau da â choleg addysg bellach lleol, ysgol brif ffrwd leol a busnesau a darparwyr hyfforddiant lleol. Mae trefniadau pontio yn gwneud yn siŵr y gall disgyblion ail-integreiddio, pan fydd yn briodol, gyda'u cyfoedion, a dilyn cyrsiau o'u dewis pan fyddant yn gadael Prospects. Bu cynnydd yn ystod y tair blynedd diwethaf yn nifer y disgyblion yn ennill achrediad a chymwysterau allanol ar ddiwedd Blwyddyn 11. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau TGAU, lefel mynediad, dyfarniadau'r Rhwydwaith Datblygu ac Achredu Cynlluniau Dyfarnu (ASDAN), Gwobrau Agored Cymru a Dug Caeredin. Er bod hwn yn faes cryfder, mae'r ysgol yn briodol wedi nodi'r angen i ehangu'r cyfleoedd hyn ymhellach er mwyn bodloni anghenion newidiol ac amrywiol y disgyblion; ac
- mae'r ysgol wedi llunio adroddiad hunanarfarnu manwl, sy'n cysylltu â'i chynllun gwella. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n mynd ati i ystyried digon o dystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft arsylwadau o ddosbarthiadau. Nid yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar gynnydd, cyflawniad a deilliannau disgyblion. Nid yw meysydd i'w gwella yn cael eu blaenoriaethu'n dda bob amser.

## Argymhellion

**A1** Parhau i ddatblygu polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws yr ysgol

**A2** Gwneud yn siŵr bod cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn cynnwys targedau llythrennedd a rhifedd penodol sy'n dangos camau cynnydd bach y gellir eu hadolygu'n effeithiol ar draws yr ysgol

**A3** Ehangu'r ystod cyrsiau achrededig i fodloni anghenion newidiol ac amrywiol y disgyblion

**A4** Datblygu'r adroddiad hunanarfarnu ymhellach fel dogfen gynhwysfawr ac arfarnol, sy'n nodi meysydd i'w gwella yn glir, gyda ffocws ar godi safonau disgyblion.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael a'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Cymryd camau i wneud yn siŵr bod yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau gofynnol ar gyfer cofrestru**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

**Argymhelliad 2: Canolbwyntio ar safonau cyflawniad a lles disgyblion yn yr holl broses fonitro a chynlluniau gwella dilynol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Eir i'r afael yn effeithiol iawn â thargedau'r cynllun ymddygiad unigol (CYU) gan ddefnyddio cynllun cymhelliant yr ysgol ei hun. Mae'r ysgol yn cofnodi cynnydd disgyblion ym meysydd prydlondeb, parch, ymgysylltiad, cyfathrebu a diogelwch. Mae gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer monitro'r addysgu a'r dysgu. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar safonau cyflawniad a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar safonau cyflawniad a lles disgyblion wrth fonitro cynlluniau tymor canolig, cynlluniau'r cwricwlwm, asesiadau gwaelodlin ac arsylwadau o'r addysgu. Defnyddir y wybodaeth hon yn briodol mewn cynlluniau gwella dilynol.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod anghenion dysgu ychwanegol yr holl ddisgyblion yn cael eu bodloni**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r 'Lodge' yn cael ei ddefnyddio fel adnodd addysgu ychwanegol. Mae hwn yn galluogi disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol sylweddol, a oedd yn cael eu haddysg yn y cartref plant yn flaenorol, i gael eu hintegreiddio'n llwyddiannus yn ôl yn yr ysgol. Mae ystafell ddosbarth ym mhrif adeilad yr ysgol wedi'i haddasu i fodloni anghenion unigol y disgyblion sydd ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.

Mae proffiliau disgyblion cynhwysfawr gan yr ysgol sy'n rhoi manylion anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl unigol. Mae'r proffiliau yn cynnwys medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Caiff y proffiliau hyn eu defnyddio'n effeithiol gan staff mewn cynlluniau tymor canolig, wrth gyflwyno gwersi ac ar gyfer cytuno ymyriadau priodol, er enghraifft, i wella medrau darllen.

**Argymhelliad 4: Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â bywyd a gwaith yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae cyngor ysgol wedi'i sefydlu ac mae disgyblion yn cael eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau ynglŷn â bywyd a gwaith yr ysgol. Teimlant fod ganddynt lais a bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi gan y staff. Mae cofnodion eu cyfarfodydd bob hanner tymor yn cynnwys camau gweithredu priodol i'w cymryd. Mae'r rhain yn cynnwys byrhau'r awr ginio er mwyn rhoi amser ar gyfer egwyl brynhawn, ac ailwampio ardal i'r disgyblion ei defnyddio fel ystafell gyffredin.

**Argymhelliad 5: Gwella'r cynllunio er mwyn gwella medrau sylfaenol disgyblion ar draws yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi cynnal adolygiad o ddatblygiad llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol, ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant priodol. Mae'r ysgol wedi datblygu strategaeth ysgol gyfan i wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Maent wedi cyflwyno ymyriadau gwerthfawr, er enghraifft i wella medrau darllen y disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y polisi a'r gweithdrefnau ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 6: Llunio polisi ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, sy'n cysylltu'n ofalus â deilliannau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol gwell ar gyfer disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae polisi priodol gan yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, sy'n cyfeirio'n benodol at faterion allweddol, yn cynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd. Mae'r materion hyn yn cysylltu'n dda â gwella deilliannau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion yn Prospects. Dros gyfnod, mae disgyblion yn datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gadw eu hunain a rhai eraill yn ddiogel.

**Argymhelliad 7: Sicrhau bod targedau CAU penodol disgyblion, a medrau llythrennedd a rhifedd, yn cael eu cynnwys yn yr holl gynlluniau gwersi a'r cyflwyno**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Caiff CAUau eu defnyddio'n briodol ar draws yr ysgol, a chynhwysir targedau llythrennedd a rhifedd wrth gyflwyno gwersi. Nid yw targedau yn rhai penodol a mesuradwy bob amser, fodd bynnag, ac nid ydynt yn cael eu hymgorffori'n ddigon da mewn cynlluniau gwersi ar draws yr ysgol.

## Cydymffurfiad â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchenogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y dull o drafod cwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestru'r ysgol hon, mae'n bosibl y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau'r arolygwyr o'r arolygiad monitro blynyddol hwn ddylanwadu ar ganfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Prospects |
| **Rhif yr ysgol** | 665/6039 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 29 a 30 Ionawr 2014 |
| **Perchennog** | Prospects for Young People Ltd |
| **Staff** | 1 pennaeth â statws athro cymwys (SAC)<br>1 pennaeth cynorthwyol â SAC<br>4 athro amser llawn â SAC<br>1 athro rhan-amser (0.6) â SAC<br>1 rheolwr cymorth dysgu amser llawn<br>4 o gynorthwywyr cymorth dysgu amser llawn (CCDau)<br>Mae tîm ar wahân o staff gofal yn y cartrefi plant preswyl |
| **Nifer y disgyblion** | 14 o ddisgyblion |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd, lleoliadau preswyl 39 wythnos a lleoliadau preswyl 52 wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Disgyblion, bechgyn a merched, yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 (11-16 oed) ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anawsterau dysgu cymedrol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Chwefror 2012 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 19 ac 20 Chwefror 2013 |
| **Ymweliad diwethaf gan AGGCC** | 31 Hydref 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Meinir Rees |
| **Arolygydd Tîm** | Ann Dackevych |